# Y CABINET DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Yr Athro Sally Holland (Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb), Cyng. Elwyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal), Cyng. Cai Larsen (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor), Bethan Richardson (Rheolwr Newid Hinsawdd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Rhys Griffiths (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru), Siwan Evans (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croeswyd pawb i'r cyfarfod gan adnabod y bu'n Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched yn gynharach yn yr wythnos, a diolchwyd i'r holl staff a chynghorwyr benywaidd am eu gwaith gwerthfawr.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 CHWEFROR

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2026 fel rhai cywir.

## 6. CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER: CYNLLUN YMATEB CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd (Atodiad 1).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a chymerwyd y cyfle i gydnabod dewrder y dioddefwyr, a phwysleisiwyd eu bod ar flaen meddyliau pob un wrth drafod y pwnc anodd hwn.

Rhoddwyd cefndir yr adroddiad a datganwyd bod y Cynllun yn fyw ac wedi esblygu dros amser, yn enwedig ers cyhoeddi'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Cyfeiriwyd at addewid y Cyngor i weithredu holl argymhellion yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, gan nodi y bu i'r Cynllun Ymateb gael ei ail-lunio er mwyn cyfarch yr holl argymhellion hyn. Esboniwyd y dilyna'r Cynllun 7 Ffrwd Gwaith, a hynny i gyd-fynd â phrif themâu'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Cadarnhawyd bod y Cynllun Ymateb hwn, ar ei newydd wedd, wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Amlygwyd y caiff argymhellion y Pwyllgorau hyn eu cynnwys yn atodiad 3 y pecyn.
Yn ogystal, bu'r Cynllun Ymateb gerbron y Cyngor Llawn fis diwethaf er mwyn sicrhau bod pob cynghorydd o fewn y Cyngor wedi cael cyfle i roi eu mewnbwn, ac i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach i gryfhau'r Cynllun. Gan ddiolch i'r holl aelodau a fu'n rhan o hynny, sicrhawyd bod holl sylwadau'r aelodau wedi eu hystyried cyn cyflwyno'r Cynllun i'r cyfarfod hwn o'r Cabinet.

Amlygwyd gan y Prif Weithredwr bod ymateb i'r hyn a digwyddodd yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor, a chaiff phob ymdrech ei rhoi i sicrhau'r Cynllun Ymateb gorau posib. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gan adnabod fod y Cyngor yn ffodus o gael y mewnbwn hwn gan y Cadeirydd, a'r holl asiantaethau a sefydliadau sy'n eistedd ar y Bwrdd hwn.
Cadarnhawyd mai'r camau nesaf fydd i barhau gyda'r cyflawni sy'n mynd rhagddo, a chydnabuwyd y cynnydd calonogol sy'n parhau i gael ei wneud.
Datganwyd bod naratif y Cynllun yn esbonio'r hyn a fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i gyflawni o dan yr holl feysydd a'u hadnabu.
Tynnwyd sylw at y fersiwn gryno o'r Cynllun Ymateb sydd yn y pecyn, gan nodi ei fod yn ymateb i sylwadau o fewn pwyllgorau am yr angen i grynhoi'r hyn sydd wedi ei wneud, a'r hyn sy'n parhau i gael ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb.
Cyfeiriwyd at ddwy ddogfen bellach sydd wrthi'n cael eu datblygu, a hynny er

mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gallu cael ei weld a'i ddeall gan bawb o fewn ein cymdeithas.
Datganwyd bod adnoddau wedi eu rhoi o fewn cyllideb y Cyngor i gyflawni'r gwelliannau sydd wedi eu hadnabod, gan dynnu sylw at y maes Llais y Plentyn yn benodol.
Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal i'r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Mynegwyd balchder bod y galw am gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn wedi ei gyfarch. Aethpwyd drwy argymhellion y Pwyllgor, sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 3 yn y pecyn, gan adnabod nifer o'r argymhellion hynny sy'n barod wedi eu cyfarch a'u hymgorffori yn y Cynllun. Croesawyd penodiad llawn amser Pennaeth newydd Ysgol Friars.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Cyfeiriwyd at y nifer sylweddol o argymhellion a rhoddwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig, gan nodi eu bod yn cwmpasu amrediad eang o faterion ar hyd y 7 Ffrwd Gwaith a materion ehangach. Nodwyd bod yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ceisio cryfhau ac ehangu rhai elfennau o'r Cynllun Ymateb, er mwyn sicrhau fod y gwersi'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y gwaith gweithredu. Cydnabuwyd bod yr adroddiad Cabinet gerbron yn adlewyrchu nifer o'r newidiadau hynny sy'n deillio o'r gwaith Craffu, gan gynnwys ailstrwythuro'r Cynllun o gwmpas systemau cliriach, a rhoi mwy o bwyslais ar fonitro cynnydd. Pwysleisiwyd mai'r prawf gwirioneddol dros amser fydd a yw'r newidiadau hyn yn arwain at newid pendant mewn systemau, mewn ymarfer, ac mewn diwylliant sefydliadol o fewn y Cyngor.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Croesawyd y Cynllun ar ei newydd wedd gan danlinellu ei fod yn Gynllun byw. Mynegwyd balchder bod modd i'r cyhoedd weld y berthynas rhwng y Cynllun Ymateb a'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder o ganlyniad i'r Ffrydiau Gwaith sy'n cyd-fynd, a bod arweinydd i bob Ffrwd. Cyfeiriwyd yn ogystal at y rhan o wefan y Cyngor sy'n cynnig gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma, a'r hyn fydd yn cael ei gyflawni yn y tymor hir. Cydnabuwyd bod hyn yn cyfrannu at sicrhau fod y Cyngor yn dryloyw ac yn agored o ran eu hymateb. Ategwyd y balchder am y penodiad parhaol i swydd Pennaeth Ysgol Friars, a dymunwyd yn dda i'r Pennaeth newydd ac i'r Ysgol.
- Cyfeiriwyd at y cyfleoedd a gollwyd a'u hadnabuwyd gan yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a holwyd am gadarnhad bod system gadarn bellach yn ei lle i sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu trin yn ffurfiol. Mewn ymateb, sicrhawyd bod nifer o wersi wedi eu dysgu yn sgil yr Adroddiad. Adnabuwyd bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddatblygu Polisi Pryderon Lefel Isel ar gyfer y maes Addysg a Chynghorau Sir, gan nodi bod cyd-weithio rhwng y Cyngor a swyddogion o fewn y Llywodraeth i drafod y sut y caiff y Polisi ei ddatblygu. Cadarnhawyd bod y Cyngor wrthi'n adnewyddu system yn fewnol ynglŷn â chadw cofnod o bryderon, ac ychwanegwyd bod dwy system ar fin eu cyflwyno i'r Cyngor i'w alluogi i gadw gwell cofnod o unrhyw honiad.
- Tynnwyd sylw at ddisgrifiad Ffrwd Gwaith 1, a gofynnwyd pa mor hyderus oedd y swyddogion fod y Cyngor yn bodloni'r disgrifiad hwn.

Adnabuwyd mai Pennaeth yr Adran Addysg sy'n arwain ar y Ffrwd hwnnw, a sicrhawyd fod y Cyngor yn gwrando ar bob plentyn. Cadarnhawyd pe bai cyfeiriad Rhan 5 yn cael ei wneud, yna byddai'r plentyn hwnnw'n derbyn ymweliad gan weithiwr cymdeithasol.

- Amlygwyd yr edrycha'r thema hwn yn ehangach na ymateb i honiadau'n unig, gan ategu ei fod yn ystyried sut mae'r Cyngor fel corfforaeth yn ystyried ac yn gwrando ar lais y plentyn. Cyfeiriwyd at y Fforymau Ieuenctid, a'r her o ran gallu mesur eu heffeithiolrwydd wrth geisio sicrhau fod llais y plentyn yn cael ei glywed. Nodwyd bod hyn yn waith sy'n mynd rhagddo er mwyn gallu deall barn y plant. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau y caiff grwpiau amrywiol o blant o wahanol gefndiroedd eu cynnwys yn y Fforymau a'r Grwpiau Ffocws hyn.
- Cydnabuwyd y nifer uchel o aelodau sydd wedi cael cyfle i roi eu mewnbwn ar y Cynllun hwn a phwysigrwydd hynny. Holwyd at bwy y mae'r hyfforddiant 'grooming' wedi'i dargedu, a chynhigiwyd y dylai'r hyfforddiant fod yn rhan o hyfforddiant diogelu holl weithlu'r Cyngor. Mewn ymateb, cadarnhawyd ei fod wedi'i ychwanegu at hyfforddiant cyffredinol i staff, gan dynnu sylw at y datblygiadau sy'n mynd rhagddo er mwyn darparu ar gyfer y bobl hynny sydd angen lefel uwch o hyfforddiant.
- Gan fod nifer o blant yn cael eu cludo i'r ysgol mewn tacsis, gofynnwyd a yw'r hyfforddiant yn ofynnol i'r gyrwyr tacsis ei gwblhau yn ogystal. Nodwyd bod trefniadau diogelu mewn lle wrth osod contractau ar gyfer cludiant addysg. Cadarnhawyd ei bod yn ofynnol i yrwyr y tacsis gwblhau hyfforddiant diogelu, a bod y Cyngor yn gwirio hynny. Ychwanegwyd mai nad y Cyngor sy'n darparu'r hyfforddiant hwn.
- Holwyd am y camau nesaf o ran adrodd ar gynnydd y Cynllun Ymateb, a'r trefniadau i alluogi aelodau i herio'r cynnydd hwnnw. Mewn ymateb, sicrhawyd bod nifer o drefniadau mewn lle, gan amlygu'r trefniant gyda'r pwyllgorau craffu i adrodd yn ôl o fewn 6 mis ar y cynnydd hwn. Amlygwyd rôl allweddol y Bwrdd Ymateb wrth herio cynnydd y rhaglen waith, gan ategu pwysigrwydd bod popeth yn gyhoeddus yn ogystal. Tynnwyd sylw at y Grŵp Sicrwydd Gweinidogol sydd wedi ei sefydlu i adrodd ar gynnydd y Cynllun Ymateb.
- Wrth gyfeirio at sicrhau fod hyfforddiant a materion cysylltiedig yn aros yn fyw o fewn y Cyngor, datgelwyd y caiff Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor ei adolygu a bod materion diogelu yn eitem barhaol ar agenda bob cyfarfod o dimau rheoli pob adran. Ychwanegwyd bod ystadegau ynglŷn â hyfforddiant diogelu nawr yn rhan o ddata herio perfformiad bob adran o fewn y Cyngor. Amlygwyd bod gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddarparu gwahanol ffurfiau o hyfforddiant yn y maes hwn i'w gosod ar draws y Cyngor, gan sicrhau hygyrchedd yr hyfforddiant i bob rhan o'r gweithlu. Pwysleisiwyd bod hyn yn waith parhaol ac amlygwyd pwysigrwydd gwreiddio'r newid diwylliannol hwn o fewn y Cyngor. Cyfeiriwyd at brosiectau hir dymor o fewn y Cynllun Ymateb megis bod yn Gyngor Trawma Wybodus ac yn sir Plentyn Gyfeillgar.

## 7. ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN

**YMATEB**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad gerbron sef y trydydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd mai'r dyma drydydd adroddiad chwarterol Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, a'i bwrpas yw diweddaru'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.
Adnabuwyd bod yr adroddiad yn codi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau, yr hyn sydd wedi ei gyflawni, a'r hyn sy'n parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd.

Croesawyd Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i'r cyfarfod. Datgelwyd bod y Bwrdd bellach yn cyfarfod bob dau fis er mwyn rhoi mwy o amser i swyddogion weithio ar y Cynllun rhwng cyfarfodydd. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, amlygwyd bod y Bwrdd wedi cytuno i gyhoeddi ei bapurau er mwyn cynyddu tryloywder y gwaith. Adnabuwyd bod y Bwrdd wedi symud i gyfnod mwy strategol.

Amlygwyd bod y dioddefwyr a'r goroeswyr yn parhau i fod ar flaen meddylia'r Bwrdd, ac ychwanegwyd bod y Bwrdd hefyd yn parhau i gynnig cymorth a chraffu i Gyngor Gwynedd.
Tynnwyd sylw at yr ymgysylltiad rhagorol â'r Bwrdd gan ei aelodau a'i arsylwyr allanol, gyda phresenoldeb llawn ym mhob cyfarfod. Soniwyd am y cyfarfodydd a gaiff eu cynnal gan y Cadeirydd gyda phartneriaid allweddol, arsylwyr allanol, ac aelodau'r Cabinet i nodi'r wybodaeth sy'n deillio o'r Bwrdd.
Cadarnhawyd bod y Cadeirydd y Bwrdd yn parhau i dderbyn gwybodaeth a chefnogaeth dda gan swyddogion ac Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd y datblygiadau allweddol a wnaed yn y chwarter diwethaf, gan dynnu sylw at y cynnydd cyson o fewn nifer o feysydd allweddol, er enghraifft datblygu a monitro diogelu mewn ysgolion, a chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau.
Ymfalchïwyd bod pennaeth newydd Ysgol Friars wedi ei phenodi'n barhaol, gan nodi ei bod hefyd yn aelod o'r Bwrdd.

Amlygwyd balchder o weld mwy o uwch swyddogion y Cyngor yn dod yn rhan o arweinyddiaeth y Cynllun Ymateb, a mwy o adnoddau yn cael eu rhoi i faes diogelu o fewn y Cyngor.

Adroddwyd bod mesurau effaith newydd ar gyfer y Cynllun Ymateb diwygiedig bellach wedi eu cytuno, ac mae'r Bwrdd yn dechrau derbyn adroddiadau ar y rhain.
Wrth fanylu ar gamau nesaf y Bwrdd, datganwyd bod dau adolygiad ar y gweill ar lefel genedlaethol a fydd yn cael effaith ar y gwaith hwn. Datganwyd y bydd mwy o graffu ar y Cynllun Ymateb o fewn Gyngor Gwynedd, ac amlygwyd bod llawer

mwy o waith i'w wneud i adfer ymddiriedaeth pobl Gwynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cyfeiriwyd at yr hanes o fwlio ehangach yn Ysgol Friars a holwyd a yw bwlio fel hyn yn cael ei adnabod fel mater o bryder. Nodwyd bod ymddygiad fel hyn yn gyffredin mewn nifer o droseddwyr, felly ei fod yn cael ei nodi o fewn hyfforddiant 'grooming'. Gobeithiwyd y bydd yr hyfforddiant newydd yn adnabod ac yn tynnu sylw at yr ymddygiadau nodweddiadol hyn. Esboniwyd y gellid codi pryder am yr ymddygiadau hyn drwy'r systemau o fewn y Cyngor, ac os nad yw'r pryder yn derbyn ymateb addas, gellid troi at y Polisi Canu'r Gloch. Ategwyd pwysigrwydd y Polisi Canu'r Gloch, a'r angen i staff ddeall sut i godi pryderon ar draws y continwwm.
- Tynnwyd sylw at ehangder yr hyfforddiant mae'r Cyngor yn ei ddarparu ac ar fin ei ddarparu i'w weithlu, gan restru a manylu ar nifer o'r hyfforddiant hwn.
- Wrth drafod y Polisi Canu'r Gloch ac wrth pwy y dylid canu'r gloch, soniwyd bod Polisïau Canu'r Gloch yn nodi ei bod yn briodol mynd tu allan i'r gorfforaeth lle rydych yn gweithio ynddi i ganu'r gloch. Ychwanegwyd bod gwarchodaeth gyfreithiol i staff sydd yn gwneud hynny. Yn ogystal, amlygwyd bod sefydliadau allanol lle gellir cyfeirio pryderon er mwyn gweld os ydyw'n achos yn addas.
- Gofynnwyd a yw Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen yn fodlon bod y cynnydd a gaiff ei wneud mewn perthynas â'r tasgau a'u hadnabu yn y Cynllun, yn amserol. Nodwyd bod yr oedi wrth gyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder wedi ei gwneud yn anodd parhau gyda'r gwaith ar yr un cyflymder am gyfnod. Adnabuwyd bod yr addasiad i'r Cynllun i sicrhau fod mwy o uwch swyddogion yn arwain ar rannau gwahanol o'r Cynllun, yn galluogi i waith fynd rhagddo'n gyflymach. Cadarnhawyd bod camau pwysig ymlaen wedi eu cymryd mewn perthynas â'r gwaith ar Lais y Plentyn, gan nodi bod y strategaeth sydd wedi'i drafftio ac wedi derbyn mewnbwn gan y Bwrdd yn nodedig ac yn gynhwysfawr. Canmolwyd y ffaith fod y strategaeth ddrafft yn cynnwys rhoi cyfle i blant gyfrannu at benderfyniadau ar lefel unigol ac ar lefel strategol. Cynhigiwyd y bydd bod yn atebol i blant a phobl ifanc yn allweddol, gan fynegi balchder bod hyn yn gynwysedig yn y strategaeth. Cadarnhawyd y bydd cyfran helaeth o'r adborth am y gwaith hwn yn ansoddol, ond esboniwyd bod modd edrych ar ddata meintiol yn ogystal drwy amrywiol ffyrdd.
- Holwyd am ddyfodol y Bwrdd ar ôl cyfnod yr haf, a chwestiynwyd beth fydd yn digwydd o ran y gwaith craffu unwaith i'r Bwrdd ddod i ben. Datganwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal am ddyfodol y Bwrdd, ond nad oes penderfyniad ffurfiol wedi ei gyrraedd ar y pwynt hwn. Amlygwyd y bydd rhaid i'r Cyngor ddod i benderfyniad o ran y rôl y dymunir i'r Bwrdd fod yn ei gymryd, a'r hyder gan y Cyngor yn ei brosesau craffu.
- Pan fydd y Bwrdd yn dod i benderfyniad bod eu gwaith wedi cyrraedd lle diogel, nodwyd y bydd posib bod yn falch o'r hyn sydd wedi ei gyflawni. Ychwanegwyd y bydd rhaid i'r Cyngor argyhoeddi'r Bwrdd a'i hun fod trefniadau mewnol effeithiol mewn lle i fod yn gwneud y gwaith

hwn.

## 8. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28 - ADOLYGIAD 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad fel cofnod o'r newidiadau technegol hyd yn hyn yn yr adolygiad o Gynllun y Cyngor gan ofyn am waith golygyddol pellach cyn cyflwyno'r adolygiad yn ei ffurf derfynol i'r Cyngor Llawn.

**TRAFODAETH**

Adnabuwyd mai Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw datganiad cyhoeddus y Cyngor o'r hyn a fwriedir ei gyflawni er budd pobl y Sir. Datganwyd bod newid i'r penderfyniad a geisir o'r hyn a gaiff ei nodi yn yr adroddiad.

Amlygwyd bod dwy sesiwn weithdy wedi'u cynnal ar gyfer yr aelodau Cabinet, a sesiynau pellach wedi'u cynnal ar gyfer yr aelodau Etholedig a'r Tîm Rheoli Corfforaethol i dderbyn eu mewnbwn ar addasiadau i'r Cynllun.

Esboniwyd bod yr addasiadau arfaethedig i'r Cynllun i'w gweld yn Atodiad 1. Ymhelaethwyd ar rai o'r addasiadau hyn, gan ddatgan bod adran newydd o fewn y Cynllun i gydnabod gwaith y Cynllun Ymateb, ac y cynigir maes blaenoriaeth newydd, sef *Gwynedd Gyfartal*.

Symudwyd ymlaen i drafod y camau nesaf o ran mabwysiadu'r Cynllun, datblygu cerrig milltir ar gyfer dwy flynedd olaf y Cynllun, ac yna ceisio sefydlu beth yw'r gwir effaith ar bobl Gwynedd. Crybwyllwyd y bydd gofyn i adrannau roi mwy o bwyslais ar amlinellu'r effaith y caiff y prosiectau ar drigolion y Sir wrth adrodd ar berfformiad.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Tynnwyd sylw at y prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth, gan ddatgan bod y nifer o ferched o fewn yr uwch dîm wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r prosiect. Gobeithiwyd y bydd posib ehangu hyn i gynnwys grwpiau eraill o gymdeithas a gaiff eu tangynrychioli mewn rolau arweinyddiaeth.
- Edrychwyd ymlaen at weld prosiectau yn datblygu o fewn y maes blaenoriaeth newydd.
- Diolchwyd i bawb a fu'n rhan o'r gweithdai, gan dynnu sylw at y ffaith fod nifer o'r addasiadau a enwir yn yr adroddiad yn ganlyniad o'r cyflawni sydd wedi mynd rhagddo mewn nifer o feysydd dros y flwyddyn.
- Eglurwyd bod y Cynllun cyfredol yn arwydd o gynllunio strategol cryf, a

bod yr adroddiad yn gofnod o'r addasiadau technegol a wnaethpwyd. Nodwyd y bydd cyfle i ymhelaethu ar yr esboniadau cyn mynd gerbron y Cyngor Llawn maes o law. Mynegwyd balchder o weld materion newydd yn cael eu cynnwys o fewn y Cynllun yn ogystal.

- Datganwyd balchder bod nifer o bobl dros 55 oed wedi ymateb i'r holiadur ymgysylltu. Ar y llaw arall, pryderwyd mai nifer fach o bobl ifanc sydd wedi ymateb i'r holiadur, gan gynnig y dylid ystyried sut i gyfathrebu â phobl ifanc er mwyn gallu derbyn eu mewnbwn. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at y Fforwm Ieuenctid fel modd o sicrhau fod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys mewn penderfyniadau ar draws y Cyngor. Soniwyd bod y data o'r ymgysylltu hwn wedi dyddio gan na chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad. Amlygwyd bod modd targedu grwpiau penodol o'r boblogaeth wrth ymgysylltu, a bod bwriad i barhau â hynny wrth fynd ymlaen.

## 9. BIDIAU UN TRO 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y bidiau un-tro o £2,870,280 ar gyfer 2026/27 sydd i'w cyllido o'r gronfa Trawsffurfio.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod y bidiau a restrir yn yr adroddiad i'w cyllido o'r gronfa trawsffurfio.

Aethpwyd ymlaen i nodi mai arian dros dro yw hwn er mwyn ymateb i faterion dros dro, sydd ddim angen eu cyllido'n barhaol drwy'r gyllideb refeniw. Ymhelaethwyd ar rai o'r bidiau a gaiff eu nodi yn yr adroddiad.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi bod y setliad gwell na'r disgwyl a gafwyd eleni wedi galluogi i faterion sydd ddim yn allweddol gael eu cynnwys yn y bidiau yn ogystal, am y tro cyntaf ers cyfnod hir.

## 10. TREFNIADAU DIRPRWYO CYFRIFOLDEBAU GWARIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo newid yr hawl i ddirprwyo gwariant y gronfa cynllun hinsawdd oddi wrth y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd

ac aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur, i'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb arweiniol ar y portffolio hinsawdd a natur, mewn ymgynghoriad aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd Hinsawdd a Natur).

**TRAFODAETH**

Nodwyd mai mater gweithredol yn unig yw'r hyn dan sylw. Datganwyd bod cwestiwn wedi ei godi am y mater hwn gan aelod o'r cyhoedd, gan holi sut yr oedd y penderfyniadau hyn yn cael eu dirprwyo. Datgelwyd bod hyn wedi bod yn rhan o'r ystyriaeth mewn perthynas â thrafod y ffordd orau ymlaen.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Diolchwyd i aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur am eu gwaith allweddol i weithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, a sicrhau y caiff penderfyniadau gwariant eu gwneud yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor.

**11. CRONFA TWF LLEOL Y DG YNG NGHYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU 2026/27**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes.

**PENDERFYNIAD**

Fod Cyngor Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod lleol arweiniol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng ngogledd Cymru hyd at ddiwedd y rhaglen (30 Medi 2026) a chwblhau ei weinyddiaeth (01 Ionawr 2027).

Fod Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd yn parhau hyd at ddyddiad diwedd diwygiedig y Gronfa; gyda'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Aelod Cabinet Cyllid a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol ynghyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (neu eu cynrychiolwyr) yn aelodau.

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i fod yn awdurdod lleol arweiniol gogledd Cymru ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DG yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf y rhaglen (2026/27).

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i barhau gyda threfniadau llywodraethu rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Cyffredin i berwyl y Gronfa Twf Lleol ar gyfer y flwyddyn gyntaf (2026/27) gan gyflwyno cynllun yn amlinellu'r bwriad i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr yn ddarostyngedig i 1.6 isod  i gytuno a chwblhau cytundebau gyda'r llywodraeth

(au) er gweithredu y swyddogaeth arweiniol.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr i sefydlu cytundebau cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i barhau'r trefniadau llywodraethu lleol i berwyl y Gronfa Twf Lleol yng Ngwynedd fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Tynnwyd sylw at y ddau fater dan sylw, sef sicrhau trefniadau i ddod a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i ben, ac i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol sy'n cymryd ei le.

Adroddwyd bod Llywodraeth y DG wedi ymestyn cyfnod y Gronfa Ffyniant Gyffredin am 6 mis ac mae gofyn i Gyngor Gwynedd barhau i fod yn awdurdod lleol arweiniol i'r rhaglen dros yr estyniad hwn. Nodwyd y bydd ei olynydd, Y Gronfa Twf Lleol, yn weithredol o 1 Ebrill 2026.

Soniwyd bod Gwynedd wedi derbyn £8.19 miliwn drwy law'r Gronfa Ffyniant Gyffredin eleni. Datganwyd bod Llywodraeth y DG wedi cyhoeddi y byddent yn caniatáu gweithgaredd wedi ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i barhau hyd at 30 Medi 2026 ond heb unrhyw arian ychwanegol.

Adnabuwyd y bydd llai o arian yn cael ei dderbyn o dan y Gronfa Twf Lleol. Aethpwyd ymlaen i dynnu sylw at y ffaith y bydd o 70% o'r arian o'r Gronfa Twf Lleol yn dod ar ffurf cyfalaf, a 30% ohono'n dod ar ffurf refeniw. Amlygwyd bod hyn yn dra gwahanol i'r drefn gyfredol a'i fod yn debygol o gael dylanwad mawr, o ystyried bod llai o arian yn ogystal.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Holwyd am eglurder o ran effaith derbyn canran uwch o arian ffurf cyfalaf, a chanran is ar ffurf refeniw. Esboniwyd mai symudiad i ffwrdd oddi wrth brosiectau sy'n darparu cefnogaeth i bobl a busnesau, gan gynnig mwy o arian ar gyfer adeiladu yw hwn. Amlygwyd y golyga hyn newid sylweddol ym mhwyslais y gweithgareddau sydd wedi bod yn digwydd drwy law'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Adnabuwyd bod swyddi o fewn y Cyngor ac ar draws gogledd Cymru a gaiff eu cyllido drwy arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a nodwyd y bydd hi'n anodd parhau â'r holl swyddi hyn o ganlyniad i lai o arian refeniw.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod prosiectau presennol yn cael 6 mis ychwanegol i ddirwyn i ben gan gwestiynu beth fyddai'n digwydd pe na fyddai posib cwblhau'r prosiectau hyn, a sut y cânt eu cefnogi. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod nifer o'r prosiectau yng Ngwynedd wedi eu cynllunio i ddod i ben erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ychwanegwyd y bydd yr amser ychwanegol yn ddefnyddiol i sawl prosiect gwblhau gwariant neu i gasglu tystiolaeth o'r allbynnau a'r hyn sydd wedi'i gyflawni. Rhagwelwyd mai oddeutu hanner y prosiectau o fewn y sir

fydd yn manteisio ar yr amser ychwanegol hwn, ond bod dim pryder o ran methu a dirwyn prosiectau i ben. Datgelwyd bod yr amser ychwanegol hwn yn rhoi cyfle i flaengynllunio, blaenoriaethu ac ailstrwythuro rhai gweithgareddau i gyd-fynd â'r sefyllfa newydd.

- Eglurwyd bod prosiectau cyfalaf angen amser paratoi, sy'n gwneud gwario swm mewn un flwyddyn ariannol yn heriol. Mynegwyd rhwystredigaeth bod yr arian yn dod i Lywodraeth Cymru dros dair blynedd, ond y caiff y Cyngor eu cyfyngu i arian blwyddyn un yn unig ar y pwynt hwn. Datganwyd mai'r her a ragwelir fydd sut i flaenoriaethu prosiectau o wybod bod llai o arian, a sicrhau y bydd y prosiectau hynny yn gwneud gwahaniaeth o dan y meini prawf a osodwyd gan y Llywodraeth. Amlygwyd bod blaenoriaethau newydd o ganlyniad i'r rhaglen newydd, a fydd yn ei gwneud yn anodd sicrhau parhad o rai gweithgareddau o raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r rhaglen newydd.
- Sicrhawyd y caiff adroddiad pellach ei gyflwyno ar y prosiectau a'u cynigir. Ategwyd nad prosiectau gwbl newydd fydd y rhain o ganlyniad i'r amserlen dynn, ond bod awydd i barhau â thrafodaethau â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio galluogi rhai prosiectau i gael eu cynnal dros flynyddoedd dau a thri.
- Esboniwyd bod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar gyfer rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar hyn o bryd, ac y bydd yn parhau i wneud hynny dros estyniad y rhaglen. Ychwanegwyd y bydd y Cyngor yn arwain ar y Gronfa Twf Lleol am ei flwyddyn gyntaf drosiannol, ac mai'r bwriad wedi hynny fydd i'w drosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd am ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen. Crybwyllwyd y bydd yn fater i'r Cydbwyllgor Corfforedig benderfynu gwneud cronfa sirol neu gadw'r arian yn rhanbarthol.

## 12. MABWYSIADU STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD I WYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd cynnwys 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035' fel sydd wedi ei gyflwyno yn Atodiad 1

Cytunwyd i argymell mabwysiadau 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035' i gyfarfod llawn Cyngor Gwynedd.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned gwblhau unrhyw fan addasiadau sy'n angenrheidiol a chytuno ar ddyluniad y Strategaeth mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet.

Cytunwyd i sefydlu 'Fforwm Economi Gwynedd' ar y sail amlinellir yn adrannau

4.19 i 4.24 yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyfeiriwyd at Adran 4 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd sy'n nodi fod strategaeth datblygu economaidd yn rhan o'r Fframwaith Polisi, a'i bod yn ofynnol i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo drwy law argymhelliad gan y Cabinet. Pwysleisiwyd bod y Strategaeth wedi'i blaen graffu yn ogystal.
Crybwyllwyd bod ffurf y Strategaeth yn dilyn trefn resymegol i dywys y darllenwr o'r achos dros weithredu, i'r blaenoriaethau ac yna ymlaen i sut y bwriedir gweithredu a mesur llwyddiant.

Adroddwyd am weledigaeth y Strategaeth, a soniwyd am y themâu o fewn y Strategaeth, sef Mentergarwch, Pobl, a Lle.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Nodwyd ganddo fod y pwyllgor yn croesawu'r gwaith o geisio gosod cyfeiriad strategol tymor hir i Wynedd, mewn cyfnod economaidd heriol. Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor ynglŷn â'r ansicrwydd cynyddol o ran grantiau, a goblygiadau posib hynny i ardaloedd gwledig a difreintiedig y Sir. Nodwyd bod aelodau o'r Pwyllgor yn awyddus i weld mwy o bwyslais ar ddatblygiad economaidd yng ngorllewin a de'r Sir, er mwyn sicrhau y caiff cyfleoedd a buddsoddiad eu dosbarthu'n deg yn ddaearyddol. Pwysleisiwyd gan y Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau trefniadau monitro cynnydd clir yn erbyn y Strategaeth, gan gynnwys gallu dangos dros amser pa swyddi a gaiff eu gwneud neu eu diogelu, ac effaith y buddsoddiad ar gymunedau Gwynedd.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Adnabuwyd bod nifer o fusnesau lleol yng Ngwynedd yn cyflogi llai na 10 o bobl, a holwyd am y gefnogaeth a gynigir i'r busnesau hynny. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod rhan helaeth o'r grantiau o becynnau cymorth diweddar wedi mynd i fusnesau bach. Cyfeiriwyd at yr ansicrwydd o ran dyfodol pecynnau cymorth, ond mynegwyd sicrwydd pe bai cyfle i ddod a phecyn cymorth ymlaen o dan y Strategaeth hon, y bydd wedi'i deilwra i geisio cefnogi busnesau a mentrau bach sy'n cyflogi ar draws y Sir.
- Ymfalchïwyd yn y Strategaeth gan edrych ymlaen at ei weld yn datblygu.
- Nodwyd bod fframwaith gwerthuso a monitro wedi'i datblygu sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth. Amlygwyd bod hyn yn cynnig cyfres o ganlyniadau ac allbynnau sydd eisiau eu cyflawni drwy'r prosiectau, a fydd yn cynnig modd i fesur pa gynigion sydd wir yn gwneud gwahaniaeth. Yn ogystal, cyfeiriwyd at Fforwm Economi Gwynedd a fydd yn cynorthwyo gyda llywio a chyflawni'r Strategaeth.

## 13. BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

**TRAFODAETH**

Datganwyd bod y Flaen Raglen i'w gweld yn y pecyn er gwybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:30pm

**CADEIRYDD**